

Cynllun Busnes 2020-2021



Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2020-2021

Rheolaeth o'r Fersiwn

Mae hon yn ddogfen fyw, a gellir ei haddasu fel y mae angen i fodloni ein blaenoriaethau.

Fersiwn	Dyddiad	Diwygiwyd gan

DRAFT

Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2020-2021

EIN HAMCANION STRATEGOL

1: Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel

- Sicrhau bod pob athro a staff cymorth wedi'u harfogi â dealltwriaeth glir o beth yw addysgu effeithiol, yn seiliedig ar dystiolaeth ddibynadwy. Yn ogystal, mae'r gallu i gyflwyno ystod o ddulliau, sy'n cyfateb anghenion dysgwyr â'r cyd-destun yn effeithiol, er mwyn sicrhau effaith gadarnhaol ar ddysgu a chyflawniad yn hollbwysig.

2: Arweinwyr sy'n ysbrydoli ac sy'n cydweithio i godi safonau

- Sicrhau bod gan bob arweinydd weledigaeth addysgol glir ac yn medru cynllunio'n strategol er mwyn cyflawni hyn. Sicrhau bod gan bob sefydliad dysgu y gallu i arwain ar bob lefel i ysbrydoli, hyfforddi, cefnogi, rhannu arfer a chydweithio ar bob lefel i sicrhau bod pob dysgwr yn cyflawni eu potensial. Sicrhau bod egwyddorion arweinyddiaeth ddosbarthol yn cael eu gwreiddio ym mhob sefydliad dysgu ar draws y rhanbarth.

3: Ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i sicrhau rhagoriaeth, tegwch a lles

- Creu'r amodau i sicrhau bod dysgwyr yn datblygu fel unigolion iach, gwydn a chyfrifol yn fyd-eang a darparu system addysgol gynhwysol, uchelgeisiol, sy'n ymroddedig i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb fel bod pobl ifanc yn cyflawni eu llawn potensial.

4: Trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd cadarn i ategu system hunanwella

- Sicrhau bod gan bob ysgol brosesau asesu cadarn mewn lle gyda gweithdrefnau targedu, olrhain ac ymyrraeth cadarn. Sicrhau bod arweinwyr ysgolion ac athrawon yn meddu ar y sgiliau, y gallu a'r ymrwymiad i ddysgu'n barhaus a gwella eu hymarfer fel bod pob plentyn yn cyflawni ei potensial

5: Cwricwlwm Trawsnewidiol

- Sicrhau bod pob ysgol yn cyflwyno cwricwlwm diddorol sy'n ymateb i ofynion statudol y cwricwlwm cenedlaethol. Sicrhau bod pob dysgwr yn cael eu cefnogi i gyflawni cymwysterau sy'n eu galluogi i fod yn ddysgwyr galluog, uchelgeisiol sy'n cyrraedd eu potensial.

6: Busnes

- Sicrhau bod gan GwE drefn lywodraethu gref a chefnogaeth fusnes a gweithredol effeithiol sy'n rhoi gwerth am arian.

Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2020-2021

1: DATBLYGU PROFFESIWN ADDYSG O SAFON UCHEL

Blaenoriaethau gwell:

- 1.1 Cefnogi ysgolion uwchradd mewn categori statudol, a'r rheini sy'n achosi pryder, i wella perfformiad.
- 1.2 Cymraeg 2050 – darparu strategaeth ranbarthol i gefnogi cyflawni 'Miliwn o Siaradwyr'.
- 1.3 Cefnogi CaBan i ddatblygu darpariaeth AGA o safon uchel.

1: Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel

Cyf	Her	Gweithredu	Mesurau Cynnydd / Targedau Rhanbarthol 2020-2021	Pwy sy'n gyfrifol	Dyddiad Targed	Cyllid (£)
1.1	Cefnogi ysgolion uwchradd mewn categori statudol, a'r rheini sy'n achosi pryder, i wella perfformiad	<p>Gweithio gyda'r 6 ALL i ddatblygu a gweithredu model cymorth cynhwysfawr a chydlynol i ysgolion uwchradd penodol sy'n sicrhau dull 'tîm o amgylch yr ysgol'.</p> <p>Sicrhau gweithio'n effeithiol gyda Llywodraeth Cymru ac Estyn i gefnogi ysgolion sy'n rhan o'r rhaglen beilot genedlaethol i Ysgolion sy'n Destun Pryder.</p> <p>Sicrhau y caiff 'ysgolion sy'n destun pryder' Gynllun Cymorth cynhwysfawr sy'n ategu eu cynllun gwella eu hunain.</p>	<p>Mae gan ysgolion dynodedig gynlluniau cymorth cynhwysfawr sy'n hwyluso ymagwedd gyfannol at welliant.</p> <p>Cynnydd da yn erbyn y rhan fwyaf o argymhellion.</p> <p>Cynnydd da yn erbyn blaenoriaethau allweddol ym mhob un o'r ysgolion hyn gydag ysgolion yn mynd i'r afael yn effeithiol â'u pecyn cymorth.</p>	Uwch Arweinydd GwE: Uwchradd	Chwefror 2020 ymlaen Parhaus O Ebrill 2020	Craidd

Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2020-2021

1: Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel

Cyf	Her	Gweithredu	Mesurau Cynnydd / Targedau Rhanbarthol 2020-2021	Pwy sy'n gyfrifol	Dyddiad Targed	Cyllid (£)
		Cefnogi cynlluniau gweithredu ôl-arolwg (CGOA) Awdurdodau Lleol Wrecsam a Sir y Fflint.	Cynnydd da yn erbyn yr argymhellion a nodwyd.		O Ebrill 2020 ymlaen	
1.2	Cymraeg 2050 – cyflawni strategaeth ranbarthol i gefnogi cyflawni 'Miliwn o Siaradwyr'.	<p>Cynllunio'n strategol er mwyn gweithredu darpariaeth a chefnogaeth yn effeithiol ar gyfer Cymraeg mewn Addysg ar draws y rhanbarth.</p> <p>Gweithredu Model Clwstwr y Gymraeg i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu a gwella defnydd anffurfiol o'r Gymraeg ym mhob ysgol ar draws y rhanbarth.</p> <p>Sicrhau cyfathrebu clir ac ymgysylltu â'r holl randdeiliaid sy'n rhan o ddatblygu Cymraeg mewn Addysg.</p>	<p>Mae cydlynu priodol o ran cyflawni Cymraeg mewn Addysg ar draws y rhanbarth a chapasiti i gynnig gwasanaeth rhanbarthol o safon uchel ar yr un pryd â rhoi gwerth am arian ac osgoi dyblygu.</p> <p>Mae gan y rhanbarth strategaeth glir ar waith i sicrhau rhagor o arweinwyr ac ymarferwyr o'r radd flaenaf sydd â'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i ddarparu cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg a Chymraeg fel pwnc, ac sy'n parhau i ddysgu drwy gydol eu gyrfa:</p> <ul style="list-style-type: none"> • bydd 56 o athrawon/cymorthyddion dysgu wedi mynychu hyfforddiant Cynllun Sabothol LIC. • bydd xxxx o athrawon/cymorthyddion dysgu wedi mynychu hyfforddiant iaith Gymraeg dan arweiniad Timau Ymgynghorol y Gymraeg. 	Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE	<p>Erbyn Ebrill 2021</p> <p>O Ebrill 2020</p>	<p>Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol (RCSIG):</p> <p>Cymraeg - datblygiad proffesiynol</p> <p>Fframwaith Defnyddio'r Iaith Gymraeg</p>

Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2020-2021

1: Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel

Cyf	Her	Gweithredu	Mesurau Cynnydd / Targedau Rhanbarthol 2020-2021	Pwy sy'n gyfrifol	Dyddiad Targed	Cyllid (£)
			<ul style="list-style-type: none"> • bydd Model Clwstwr y Gymraeg wedi sefydlu ym mhob un o'r 54 clwstwr yn y rhanbarth. • bydd 54 Cydlynnydd Clwstwr y Gymraeg wedi'u penodi ac yn mynd ati i hybu datblygiad Cymraeg mewn Addysg. • Bydd gan bob clwstwr Gynllun Cydweithredu Dalgylch ar draws 416 ysgol y rhanbarth, gyda ffocws clir ar ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu. 			
1.3	Cefnogi CaBan i ddatblygu darpariaeth AGA o safon uchel.	<p>Sicrhau dilyniant mewn dysgu proffesiynol i athrawon drwy'r cydweithio rhwng Prifysgol Bangor a GwE.</p> <p>Cefnogi rhaglen addysgu Prifysgol Bangor drwy gynig darlithoedd, seminarau a dosbarthiadau tiwtorial o bryd i'w gilydd (i'w cyflwyno gan staff GwE sydd â gwybodaeth arbenigol mewn meysydd perthnasol).</p> <p>Cynorthwyo CaBan i sicrhau ansawdd ysgolion arweiniol drwy weithgareddau hunan arfarnu a</p>	<p>Mae gan holl staff addysgu CaBan fynediad i gynnig proffesiynol GwE.</p> <p>Mae fframwaith mewn lle ar gyfer dysgu proffesiynol, o Statws Athro Cymwysedig i sefydlu fel Athro Newydd Gymhwyso i hyfforddiant athrawon a hyfforddiant arweinyddiaeth.</p> <p>Mae gan bob ysgol arweiniol yr wybodaeth ddiweddaraf am waith ymchwil a datblygiadau addysgol trwy</p>	Arweinydd AGA GwE	O Ebrill 2020 ymlaen	Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol (RCSIG): AGA

Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2020-2021

1: Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel

<i>Cyf</i>	<i>Her</i>	<i>Gweithredu</i>	<i>Mesurau Cynnydd / Targedau Rhanbarthol 2020-2021</i>	<i>Pwy sy'n gyfrifol</i>	<i>Dyddiad Targed</i>	<i>Cyllid (£)</i>
		<p>monitro rheolaidd.</p> <p>Cefnogi gwaith ymchwil CIEREI drwy hyrwyddo prosiectau yn ysgolion y rhanbarth.</p> <p>Cefnogi ailachredu drwy Gyngor y Gweithlu Addysg.</p>	<p>gynnig proffesiynol GwE a chefnogaeth yr Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant.</p> <p>Mwy o ddefnyddio strategaethau addysgu sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn gwella ansawdd y ddarpariaeth a deilliannau dysgwyr.</p> <p>Cyngor y Gweithlu Addysg yn cydnabod y cynnydd tuag at amodau ailachredu.</p>			

DRAFT

Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2020-2021

2: ARWEINWYR SY’N YSBRYDOLI AC SY’N CYDWEITHIO I GODI SAFONAU


Blaenoriaethau gwella:	
2.1	Gweithio gyda rhanbarthau eraill i ddarparu rhaglenni datblygu ar draws y gweithlu i sicrhau arweinyddiaeth o safon uchel
2.2	Cefnogi ysgolion uwchradd i wella perfformiad arweinyddiaeth ganol
2.3	Datblygu model a phrosesau ymgysylltu â chymheiriaid efo ysgolion i sicrhau bod hunan arfarnu a chynllunio gwelliant yn gadarn ar bob lefel

2: Arweinwyr ysbrydoledig yn cydweithio i godi safonau

Cyf	Her	Gweithredu	Mesurau Cynnydd / Targedau Rhanbarthol 2020-2021	Pwy sy'n gyfrifol	Dyddiad Targed	Cyllid (£)
2.1	Gweithio gyda rhanbarthau eraill i ddarparu rhaglenni datblygu ar draws y gweithlu i sicrhau arweinyddiaeth o safon uchel	<p>Parhau i gynnig amrediad eang o gyfleoedd Dysgu Proffesiynol mewn perthynas â rhaglenni datblygu arweinyddiaeth i ddatblygu arweinwyr y presennol a'r dyfodol.</p> <ul style="list-style-type: none"> Arweinyddiaeth Ganol (RhDAG) – parhau i gyflwyno'r RhDAG, rhaglen genedlaethol i'w chyflwyno'n rhanbarthol Uwch Arweinwyr – parhau i gyflwyno'r rhaglen rhanbarthol i sicrhau dysgu cyfleoedd Dysgu Proffesiynol o ansawdd i uwch arweinwyr ar draws y rhanbarth. 	<p>Cynnydd yn nifer yr ymgeiswyr safon uchel am swyddi arweinyddiaeth mewn ysgolion a lleoliadau.</p> <p>Cais xxxx unigolyn yn llwyddiannus / ac yn mynychu'r Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol genedlaethol.</p> <p>Cais xxxx unigolyn yn llwyddiannus / ac yn mynychu'r Rhaglen i Ddarpar Benaethiaid.</p>	Arweinydd Rhaglenni Arweinyddiaeth GwE	<p>Parhaus</p> <p>Dyddiad cychwyn – Ionawr 2021</p> <p>Dyddiad cychwyn – Medi 2020</p>	<p>Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol (RCSIG):</p> <p>Arweinwyr y Dyfodol / Penaethiaid Newydd a Dros Dro / CPCP</p>

Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2020-2021

2: Arweinwyr ysbrydoledig yn cydweithio i godi safonau

Cyf	Her	Gweithredu	Mesurau Cynnydd / Targedau Rhanbarthol 2020-2021	Pwy sy'n gyfrifol	Dyddiad Targed	Cyllid (£)
		<ul style="list-style-type: none"> • CPCP – cyflwyno'r rhaglen genedlaethol Darpar benaethiaid sy'n arwain at CPCP sydd wedi'i gymeradwyo gan yr Academi Genedlaethol Arfarnu, adolygu a mireinio y rhaglen datblygu CPCP newydd er mwyn sicrhau ei fod yn gyfredol. • Penaethiaid Newydd a Phenaethiaid Dros Dro - parhau i ddarparu'r dysgu proffesiynol a gynigir yn y Rhaglen Datblygu Penaethiaid Newydd / Penaethiaid Dros Dro genedlaethol. • Penaethiaid Profiadol - parhau i ddarparu'r dysgu proffesiynol a gynigir yn y Rhaglen Datblygu Penaethiaid Profiadol genedlaethol. 	<p>Cais xxxx unigolyn yn llwyddiannus / ac yn mynychu'r Rhaglen Datblygu CPCP genedlaethol newydd Bydd 80% o ymgeiswyr CPCP yn llwyddiannus.</p> <p>Mae gan bob Pennaeth Newydd a Phennaeth Dros Dro fynediad i gymorth cyffredin, generig neu benodol, gan ddibynnu ar angen, amgylchiadau a'r math o ysgol.</p> <p>Cais xxxx unigolyn yn llwyddiannus / ac yn mynychu'r Rhaglen Datblygu Penaethiaid Profiadol genedlaethol newydd</p> <p>Mwy o arweinyddiaeth gydweithredol ac arweinyddiaeth system yn datblygu ar draws y rhanbarth.</p> <p>Mae arweinwyr yn mynd i'r afael yn llawn â'r agenda diwygio cenedlaethol.</p>		<p>Dyddiad cychwyn – Ionawr 2021</p> <p>Medi 2019</p> <p>Parhaus</p>	

Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2020-2021

2: Arweinwyr ysbrydoledig yn cydweithio i godi safonau

<i>Cyf</i>	<i>Her</i>	<i>Gweithredu</i>	<i>Mesurau Cynnydd / Targedau Rhanbarthol 2020-2021</i>	<i>Pwy sy'n gyfrifol</i>	<i>Dyddiad Targed</i>	<i>Cyllid (£)</i>
2.2	Cefnogi ysgolion uwchradd i wella perfformiad arweinyddiaeth ganol	<p>Annog ysgolion rhanbarthol i fynd i'r afael yn effeithiol â rhaglenni datblygu GwE i arweinwyr canol.</p> <p>Sicrhau bod gan ysgolion wedi'u targedu fynediad i gymorth arweinyddiaeth ganol unigryw yn eu Cynllun Cymorth gyda ffocws penodol ar wella ansawdd dysgu ac addysgu.</p> <p>Sicrhau bod bob ysgol yn cael mynediad i rwydweithiau pynciau craidd gyda ffocws penodol ar ddatblygu dysgu ac addysgu o safon uchel a datblygu arfer orau ar y cyd.</p> <p>Fel rhan o gynllun ôl-arolwg ALI Wrecsam sicrhau bod rhaglen gymorth uwch ac unigryw ar gael er mwyn datblygu ymhellach sgiliau arweinwyr canol drwy ddatblygu a gweithredu rhaglen hyfforddi/mentora.</p>	<p>O leiaf 25 arweinydd yn defnyddio'r cynnig rhanbarthol.</p> <p>Mae bob ysgol wedi'i thargedu yn ymgysylltu'n effeithiol â'r gwasanaeth ac yn cael cymorth o safon uchel i ddatblygu sgiliau arweinwyr canol fel 'arweinwyr dysgu' medrus.</p> <p>Pob ysgol ranbarthol yn rhan o'r rhwydweithiau pynciau craidd.</p> <p>Pob rhwydwaith wedi gofalu y caiff ysgolion fynediad i gymorth ac arweiniad o safon uchel ar ddatblygu arfer orau mewn perthynas â dysgu/addysgu; tracio ac ymyrraeth a gwella perfformiad yng nghyfnod allweddol 4.</p> <p>Ysgolion/arweinwyr wedi'u targedu yn mynd i'r afael yn effeithiol â'r rhaglen.</p> <p>Hyder a gallu'r rhan fwyaf o arweinwyr sy'n rhan o'r rhaglen yn gwella.</p>	Uwch Arweinydd GwE: Uwchradd	<p>O dymor yr hydref 2020 ymlaen</p> <p>O dymor yr hydref 2020 ymlaen</p> <p>O Ebrill 2020 ymlaen</p> <p>O haf 2020 ymlaen</p>	<p>Craidd</p> <p>Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol (RCSIG):</p> <p>Arweinwyr y Dyfodol</p>


Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2020-2021

2: Arweinwyr ysbrydoledig yn cydweithio i godi safonau

Cyf	Her	Gweithredu	Mesurau Cynnydd / Targedau Rhanbarthol 2020-2021	Pwy sy'n gyfrifol	Dyddiad Targed	Cyllid (£)
2.3	Datblygu model a phrosesau ymgysylltu â chymheiriaid efo ysgolion i sicrhau bod hunan arfarnu a chynllunio gwelliant yn gadarn ar bob lefel	<p>Parhau i arfarnu a datblygu rhaglenni adolygu gan gymheiriaid.</p> <p>Parhau i hyfforddi a chefnogi YCG GwE gan gynnwys arfarnu a datblygu rôl yr YCG wrth fentora, hyfforddi, hwyluso a herio ysgolion.</p> <p>Darparu hyfforddiant a chymorth gydag adolygu gan gymheiriaid a chymorth ysgol i ysgol i weddill yr ysgolion yn y rhanbarth.</p> <p>Darparu hyfforddiant a chymorth i ddatblygu ac esblygu ymhellach rôl yr Hwylusydd Gwelliant i ddatblygu capasiti arweinyddiaeth ar draws y system.</p>	<p>Mae'r model adolygu gan gymheiriaid yn gwreiddio yn y rhanbarth ac fe'i gwelir fel rhan annatod o wella ysgolion:</p> <ul style="list-style-type: none"> • 30+ YCG GwE wedi cael hyfforddiant llawn ac yn gallu darparu hyfforddiant adolygu gan gymheiriaid a Hwyluswyr Gwelliant yn effeithiol • Uwch arweinwyr yn yr 416 ysgol wedi'u hyfforddi fel adolygwyr cymheiriaid <p>Mae'r 416 o ysgolion y rhanbarth yn rhan o adolygu gan gymheiriaid:</p> <ul style="list-style-type: none"> • 500+ Uwch Arweinydd yn rhan o adolygu gan gymheiriaid • 2,000+ aelod staff yn rhan o adolygu gan gymheiriaid <p>Mae rolau Hwyluswyr Gwelliant yn gyfle Dysgu Proffesiynol da i arweinwyr ac athrawon. Arweinwyr ac athrawon talentog wedi'u hadnabod fel Hwyluswyr Gwelliant, sy'n datblygu capasiti arweinyddiaeth ymhellach ar draws y rhanbarth:</p>	Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE	<p>Haf 2020</p> <p>Hydref 2020</p>	<p>Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol (RCSIG):</p> <p>Gweithio ar y cyd</p>

Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2020-2021

2: Arweinwyr ysbrydoledig yn cydweithio i godi safonau

Cyf	Her	Gweithredu	Mesurau Cynnydd / Targedau Rhanbarthol 2020-2021	Pwy sy'n gyfrifol	Dyddiad Targed	Cyllid (£)
		<p>Datblygu ymhellach ymgysylltu â chymheiriaid fel agwedd allweddol ar ddilysu prosesau hunan arfarnu a blaenoriaethau gwella ysgolion.</p> <p>Parhau i ddatblygu'r systemau cydweithredol o fewn G6 sy'n hwyluso prosesau ymgysylltu â chymheiriaid ysgolion.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • 150+ Hwylusydd Gwelliant wedi cael hyfforddiant ac yn rhan o adolygu gan gymheiriaid • xx o'r Hwyluswyr Gwelliant yn ymgymryd â rôl Adolygwyr Cymheiriaid yn ystod ail gylch y rhaglen. • Mae rôl yr HG yn datblygu i fod yn gallu hwyluso trafodaethau ar agweddau ar y Daith Ddiwygio yn eu clystyrau <p>Gweithio mewn partneriaeth yn sefydlu ar bob lefel a'r tu hwnt i arweinwyr ysgolion, gyda chymheiriaid yn fodlon ac yn hyderus i ddilysu hunan arfarniad ei gilydd.</p> <p>Symud diwylliannol tuag at gydymdrech gytûn.</p> <p>Mae'r ysgolion sy'n rhan o adolygu gan gymheiriaid yn gallu defnyddio'r canlynol yn effeithiol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • mynediad gronynnog i flaenoriaethau • adrodd gronynnog yn Ciplun 	 <p>Arweinydd yr Uned Ansawdd a Data</p>	Hydref 2020	

Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2020-2021

2: Arweinwyr ysbrydoledig yn cydweithio i godi safonau

Cyf	Her	Gweithredu	Mesurau Cynnydd / Targedau Rhanbarthol 2020-2021	Pwy sy'n gyfrifol	Dyddiad Targed	Cyllid (£)
		Hyfforddiant a chymorth ar gael fel bo'r angen i ysgolion sy'n rhan o'r rhaglenni ymgysylltu â chymheiriaid rhanbarthol.	<ul style="list-style-type: none"> • adnodd prosesau hunan arfarnu Darparu hyfforddiant ac arweiniad fel bo'r angen ar ddefnyddio systemau cydweithredol G6 yn effeithiol.			

3: YSGOLION CRYF A CHYNHWYSOL SYDD WEDI YMROI I SICRHOU RHAGORIAETH, TEGWCH A LLESIANT


Blaenoriaethau gwell:

- 3.1 Datblygu ymhellach y gwaith o weithredu model fframwaith y Grant Datblygu Disgyblion rhanbarthol (GDD).
- 3.2 Datblygu ymhellach y strategaeth PMG
- 3.3 Gweithio gydag AauLI ac ysgolion i weld sut orau i baratoi ar gyfer trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol

3: Ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymroi i sicrhau rhagoriaeth, tegwch a llesiant


Cyf	Her	Gweithredu	Mesurau Cynnydd / Targedau Rhanbarthol 2020-2021	Pwy sy'n gyfrifol	Dyddiad Targed	Cyllid
3.1	Datblygu ymhellach y gwaith o weithredu model fframwaith y Grant Datblygu	Sicrhau cysondeb drwy gysoni amcanion / deilliannau cysylltiedig â'r GDD ar draws y consortia.	Parhau i weithredu strategaethau rhanbarthol i wella'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr bregus.	YCG Llesiant GwE	Rhagfyr 2020	Grant Datblygu Disgyblion (GDD)

Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2020-2021

3: Ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymroi i sicrhau rhagoriaeth, tegwch a llesiant						
<i>Cyf</i>	<i>Her</i>	<i>Gweithredu</i>	<i>Mesurau Cynnydd / Targedau Rhanbarthol 2020-2021</i>	<i>Pwy sy'n gyfrifol</i>	<i>Dyddiad Targed</i>	<i>Cyllid</i>
	Disgyblion rhanbarthol (GDD).	<p>Datblygu a chefnogi ymhellach systemau cynaliadwy mewn ysgolion nad ydynt yn ddibynnol ar gyllid grant.</p> <p>Datblygu templedi ar gyfer cynllunio, gweithredu ac arfarnu'r GDD.</p> <p>Gwella sut y mae ysgolion yn defnyddio ac yn arfarnu'r GDD.</p> <p>Mae cynnig dysgu proffesiynol wedi'i dargedu mewn lle, gyda ffocws ar addysgeg allweddol sy'n cefnogi dysgwyr bregus.</p> <p>Datblygu fframweithiau ysgol gyfan / clwstwr:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Astudiaethau achos • Systemau tracio a dulliau o arfarnu effaith • Llais y disgybl 	<p>Archwilio a monitro holl gynlluniau GDD y rhanbarth bob chwe mis. Rhannu effaith ac arferion llwyddiannus ar G6.</p> <p>Tystiolaeth o arweiniad pellach ar delerau ac amodau'r grant yn cael ei gweithredu ar draws y rhanbarth.</p> <p>Monitro perfformiad unigolion a gwahanol grwpiau o ddysgwyr, gan ddefnyddio'r data sydd ar gael efo ffocws neilltuol ar sicrhau cynnydd priodol yn ôl eu gwaelodlin.</p> <p>Mae ysgolion wedi'u targedu yn defnyddio'r cynnig rhanbarthol. Dysgu Proffesiynol - arfarnu'r cynnig ar draws y rhanbarth - dull clwstwr ac/neu rhanbarthol.</p> <p>Defnyddio data crynodol a data ffurfiannol yn effeithiol i dargedu gwelliant ar draws y rhanbarth.</p>		<p>Medi 2020</p> <p>Gorffennaf 2020</p> <p>Ionawr 2021</p> <p>Mawrth 2021</p>	
3.2	Datblygu ymhellach y strategaeth PMG	Gweithredu'r strategaeth GDD PMG, mesur effaith a'r canllawiau arfarnu ar draws y rhanbarth.	Parhau i weithredu strategaethau rhanbarthol i wella'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr bregus.	YCG Llesiant GwE	Ebrill 2020 - Mawrth 2020	PMG

Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2020-2021

3: Ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymroi i sicrhau rhagoriaeth, tegwch a llesiant

Cyf	Her	Gweithredu	Mesurau Cynnydd / Targedau Rhanbarthol 2020-2021	Pwy sy'n gyfrifol	Dyddiad Targed	Cyllid
		<p>Datblygu ymhellach dempledi ar gyfer cynllunio, gweithredu ac arfarnu'r GDD clwstwr PMG.</p> <p>Gweithredu ffynhonnell ddata gyson at ddibenion rhannu gwybodaeth o ran yr ALI yn rhannu data am PMG â'r consortia.</p> <p>Datblygu ymhellach y bartneriaeth gyda'r 6 ALI o ran rôl y Cydlynnydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal.</p> <p>Asesu a thracio cynnydd dysgwyr PMG y rhanbarth yn rheolaidd drwy'r ysgolion/AauLI a'r consortia.</p> <p>Parhau i gynnig dysgu proffesiynol wedi'i dargedu efo ffocws ar addysgeg allweddol sy'n cefnogi PMG/dysgwyr bregus.</p>	<p>Monitro perfformiad unigolion a gwahanol grwpiau o ddysgwyr, gan ddefnyddio'r data sydd ar gael efo ffocws neilltuol ar sicrhau cynnydd priodol yn ôl eu gwaelodlin.</p> <p>Mae proffil un tudalen clir ar lefel ysgol/clwstwr mewn lle, sy'n dangos tystiolaeth o effaith y GDD PMG.</p> <p>Model fframwaith yn cael ei weithredu yn y rhanbarth drwy'r canllawiau grant, gyda system/canllawiau arfarnu cadarn ar waith.</p> <p>Mae atebolrwydd clir am gyllid grant a chynllunio mewn lle, a hynny ar sail data Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth (CRCS) yn seiliedig ar fformiwla.</p> <p>Canllawiau wedi'u creu ar gyfer holl staff y consortia ar fonitro a chefnogi addysg plant mewn gofal.</p>		<p>Mai - Mehefin 2020</p> <p>Hydref 2020</p> <p>Ionawr - Mawrth 2020</p> <p>Ebrill - Mawrth 2020</p>	
3.3	Gweithio gydag AauLI ac ysgolion i weld sut orau i baratoi ar gyfer	Mae cynnig Dysgu Proffesiynol mewn lle, a ddarperir gan AauLI a GwE, sy'n bodloni anghenion	Mae'r cynnig dysgu proffesiynol yn cefnogi gyda deall a chyflawni'r Trawsnewid ADY. Mae'r rhan fwyaf o	Arweinydd Trawsnewid Anghenion Dysgu	O Ebrill 2020 ymlaen	ADY Dyranid grant trawsnewid

Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2020-2021

3: Ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymroi i sicrhau rhagoriaeth, tegwch a llesiant						
<i>Cyf</i>	<i>Her</i>	<i>Gweithredu</i>	<i>Mesurau Cynnydd / Targedau Rhanbarthol 2020-2021</i>	<i>Pwy sy'n gyfrifol</i>	<i>Dyddiad Targed</i>	<i>Cyllid</i>
	trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol	<p>staff rheng flaen ac arweinwyr strategol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ag ADY.</p> <p>Rhannu arferion effeithiol ar draws y rhanbarth er mwyn lleihau dyblygu a llwyth gwaith.</p> <p>Parhau i ddatblygu'r berthynas waith rhwng y swyddogion arweiniol dynodedig ar draws y rhanbarth.</p> <p>Parhau i ddatblygu cyswllt gweithredol rhwng gwasanaethau ADY yr awdurdod lleol a'r gwasanaeth gwella ysgolion (GwE)</p> <p>Rhwydweithiau clwstrwr a thrawsnewid ADY wedi'u sefydlu a chânt eu cefnogi gan yr YCG. Mae gan bob clwstrwr gynllun gweithredu ategol sy'n adnabod y camau nesaf yn y daith ddiwygio.</p> <p>Mae pob awdurdod lleol, GwE ac asiantaethau cysylltiedig yn</p>	<p>aelodau staff dynodedig wedi mynychu 2 ddiwrnod Dysgu Proffesiynol, o leiaf, yng nghyd-destun trawsnewid ADY.</p> <p>Mae astudiaethau achos arferion llwyddiannus ar gael ar G6, yn seiliedig ar waith clystyrau ac AauLI.</p> <p>Caiff pob cynllun clwstrwr fewnbwn gan yr YCG.</p> <p>Cynllunnir ar gyfer meysydd a nodir yn y cynnig proffesiynol a gweithredir yn unol â hyn.</p> <p>Mae rhwydweithiau proffesiynol ar waith ar gyfer cyfrwng Cymraeg, canolfannau arbenigol a model ar sail clwstrwr.</p> <p>Mae'r AauLI a GwE yn cymeradwyo'r cynlluniau clwstrwr.</p> <p>Mae bob ysgol yn rhan o'r model clwstrwr lleol ac yn cael cefnogaeth ariannol y grant trawsnewid.</p>	<p>Ychwanegol Rhanbarth Gogledd Cymru</p>		

Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2020-2021

3: Ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymroi i sicrhau rhagoriaeth, tegwch a llesiant						
<i>Cyf</i>	<i>Her</i>	<i>Gweithredu</i>	<i>Mesurau Cynnydd / Targedau Rhanbarthol 2020-2021</i>	<i>Pwy sy'n gyfrifol</i>	<i>Dyddiad Targed</i>	<i>Cyllid</i>
		cymeradwyo'r cynllun trawsnewid rhanbarthol a'r blaenoriaethau cyllid.				

4: TREFNIADAU ASESU, ARFARNU AC ATEBOLRWYDD CADARN I ATEGU SYSTEM HUNANWELLA

Blaenoriaethau gwella:

Cefnogi ysgolion i wella perfformiad yn y sector uwchradd:


- 4.1 Datblygu systemau tracio ac asesu
- 4.2 Datblygu atebolrwydd a systemau rheoli
- 4.3 Datblygu ymhellach trefniadau atebolrwydd a phrosesau ar gyfer hunan arfarnu cadarn a chynllunio gwelliant

4: Trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd cadarn i ategu system hunanwella						
<i>Cyf</i>	<i>Her</i>	<i>Gweithredu</i>	<i>Mesurau Cynnydd / Targedau Rhanbarthol 2020-2021</i>	<i>Pwy sy'n gyfrifol</i>	<i>Dyddiad Targed</i>	<i>Cyllid (£)</i>
4.1	Datblygu systemau tracio ac asesu	Sicrhau cefnogaeth barhaus i ysgolion er mwyn datblygu ymhellach a gwreiddio systemau effeithiol ar gyfer tracio ac asesu.	<p>Pob ysgol yn gwneud cynnydd ar y continwmm o ran:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gweithredu prosesau effeithiol ar gyfer gosod targedau a defnyddio amrediad o dystiolaeth ar lefel disgybl i osod targedau heriol i unigolion. • mae gan aelodau staff ar bob lefel berchenogaeth o'r targedau ac 	Uwch Arweinydd GwE: Uwchradd	O Ebrill 2020 ymlaen	Craidd

Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2020-2021

4: Trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolwydd cadarn i ategu system hunanwella						
<i>Cyf</i>	<i>Her</i>	<i>Gweithredu</i>	<i>Mesurau Cynnydd / Targedau Rhanbarthol 2020-2021</i>	<i>Pwy sy'n gyfrifol</i>	<i>Dyddiad Targed</i>	<i>Cyllid (£)</i>
			<p>maent yn cymryd cyfrifoldeb amdanynt</p> <ul style="list-style-type: none"> • mae gan arweinwyr fynediad i ddata tracio rheolaidd a manwl gywir, sy'n seiliedig ar asesiadau safonedig a dilys • gweithredu yn gynnar ar ddeilliannau data er mwyn llywio ymyraethau amserol. • defnyddio data i gynnig darlun cyfannol o ddysgwyr unigol yn hytrach nag o bynciau unigol ar eu pennau eu hunain • hybu arweinwyr pwnc a staff bugeiliol i fod yn rhagweithiol • mae'n gwbl glir bod y Pennaeth ac uwch arweinwyr eraill yn buddsoddi yn y system <p>Pob arweinydd yn datblygu hyder yn eu dealltwriaeth o'r hyn sy'n cyfrannu at amrywiad o fewn ysgol, ac yn arwain, herio a chefnogi eu hysgolion yn effeithiol i fynd i'r afael â diffygion.</p>			
4.2	Datblygu atebolwydd a systemau rheoli	Gofalu bod y dull rhanbarthol o weithredu system hunanwella yn arddel egwyddorion ansawdd a	Mae systemau atebolwydd a rheoli rhanbarthol yn croesawu'r cyfeiriad cenedlaethol.	Uwch Arweinydd GwE: Uwchradd	O Ebrill 2020 ymlaen	Grant Gwella Ysgolion y Consortia

Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2020-2021

4: Trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolwydd cadarn i ategu system hunanwella						
<i>Cyf</i>	<i>Her</i>	<i>Gweithredu</i>	<i>Mesurau Cynnydd / Targedau Rhanbarthol 2020-2021</i>	<i>Pwy sy'n gyfrifol</i>	<i>Dyddiad Targed</i>	<i>Cyllid (£)</i>
		<p>chydraddoldeb; atebolwydd ar y lefel uchaf bosib; sybsidiaredd; arfer yn seiliedig ar dystiolaeth; syniadau newydd; creadigrwydd ac uchelgais; cydweithio a phartneriaeth.</p> <p>Parhau i ddatblygu capasiti ar gyfer system hunanwella gynaliadwy drwy ddatblygu uwch arweinwyr ac arweinwyr canol o ysgolion ar draws y rhanbarth, fel y gellir eu defnyddio'n effeithiol i weithio gydag ysgolion eraill a ble y bydd hyn, yn ei dro, yn datblygu a chyfoethogi eu gwybodaeth a'u sgiliau hwythau hefyd.</p> <p>Parhau i ddatblygu echdynnu data o G6 a'i ddefnyddio'n effeithiol i gefnogi atebolwydd a rheoli perfformiad y gwasanaeth.</p>	<p>Arweinwyr ysgolion yn gweithredu'n effeithiol fel arweinwyr system ac yn croesawu mwy o gyfrifoldeb am welliant ar draws y system.</p> <p>Gwell cnewyllyn o arweinwyr effeithiol yn gweithio o fewn y system ysgolion.</p> <p>Mae gan staff GwE fynediad uniongyrchol i gasgliad o ddata ar G6 er mwyn cefnogi trefniadau atebolwydd yn effeithiol.</p> <p>Gall uned ddata GwE ymateb i unrhyw gais penodol am ddata G6 sy'n gysylltiedig ag atebolwydd neu reoli perfformiad y gwasanaeth.</p>	 <p>Arweinydd yr Uned Ansawdd a Data</p>	Haf 2020	Rhanbarthol (RCSIG): Gweithio ar y cyd

Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2020-2021

4: Trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd cadarn i ategu system hunanwella						
<i>Cyf</i>	<i>Her</i>	<i>Gweithredu</i>	<i>Mesurau Cynnydd / Targedau Rhanbarthol 2020-2021</i>	<i>Pwy sy'n gyfrifol</i>	<i>Dyddiad Targed</i>	<i>Cyllid (£)</i>
4.3	Datblygu ymhellach trefniadau atebolrwydd a phrosesau ar gyfer hunan arfarnu cadarn a chynllunio gwelliant	<p>Parhau i weithio gyda LIC i ddatblygu 2 llyn y <i>Fframwaith Atebolrwydd</i> cenedlaethol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ysgolion sy'n Destun Pryder • Adnodd Gwerthuso a Gwella Cenedlaethol <p>Parhau i weithio gydag Ysgolion Peilot GwE i ddatblygu'r Adnodd Gwerthuso a Gwella Cenedlaethol</p> <p>Parhau i weithio gydag EDT a phartneriaid a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu ymhellach a gwreiddio arferion gorau prosesau ymgysylltu â chymheiriaid.</p> <p>Sicrhau cefnogaeth wedi'i thargedu i ysgolion/arweinwyr ble mae prosesau hunan arfarnu a chynllunio gwelliant angen eu gwella.</p> <p>Parhau i ddatblygu systemau o fewn G6 sy'n hwyluso cynllunio gwelliant a hunan arfarnu effeithiol.</p>	<p>Tystiolaeth o wella'r gyfundrefn gyfan drwy fesurau cytûn.</p> <p>Mae adnoddau a dulliau gweithredu mewn ysgolion yn ogystal â rhai rhanbarthol yn cyfrannu'n bwrpasol i'r Adnodd Gwerthuso a Gwella Cenedlaethol.</p> <p>Mae'r model adolygu gan gymheiriaid yn gwreiddio yn y rhanbarth ac fe'i gwelir fel rhan annatod o wella ysgolion.</p> <p>Gweithredir prosesau a systemau mwy cadarn ar draws ysgolion wedi'u targedu.</p> <p>Mae agweddau ar yr adnodd hunan arfarnu newydd wedi'u datblygu ac ar gael i ysgolion eu treialu yn ystod tymor yr haf.</p>	<p>Uwch Arweinydd GwE: Uwchradd</p> <p>Arweinydd yr Uned Ansawdd a Data</p> <p>Arweinydd yr Uned Ansawdd a Data</p>	<p>Parhaus</p> <p>Haf 2022</p> <p>Haf 2020</p> <p>O haf 2020 ymlaen</p> <p>Haf 2022</p>	<p>Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol (RCSIG):</p> <p>Gweithio ar y cyd</p>

Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2020-2021

4: Trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolwydd cadarn i ategu system hunanwella

Cyf	Her	Gweithredu	Mesurau Cynnydd / Targedau Rhanbarthol 2020-2021	Pwy sy'n gyfrifol	Dyddiad Targed	Cyllid (£)
		Darparu cyfleoedd hyfforddiant a chymorth priodol ar gyfer arweinwyr ym mhob sector er mwyn iddynt allu defnyddio systemau cynllunio gwelliant a hunan arfarnu G6 yn effeithiol.	Mae Arweiniad a Hyfforddiant ar gael i bob sector ar ddatblygiadau cam pedwar, yn ogystal â'r adnodd prosesau hunan arfarnu.			

5: CWRICWLWM TRAWSNEWIDIOL

Blaenoriaethau gwella:

5.1 Cefnogi ysgolion a chlystyrau wrth iddynt baratoi i gynnig Cwricwlwm Trawsnewidiol drwy raglen o ddysgu proffesiynol ar y themâu hyn:

- Arwain newid
- Datblygu gweledigaeth gytûn
- Creu amser a lle ar gyfer Dysgu Proffesiynol
- Cynllunio ar gyfer newid cwricwlwm / dylunio cwricwlwm
- Addysgeg arweiniol

5: Cwricwlwm Gweddnewidiol

Cyf	Her	Gweithredu	Mesurau Cynnydd / Targedau Rhanbarthol 2020-2021	Pwy sy'n gyfrifol	Dyddiad Targed	Cyllid (£)
5.1	Cefnogi ysgolion a chlystyrau wrth iddynt	Parhau i gefnogi ysgolion i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd yn unol â disgwyliadau'r system:				Grant Gwella Ysgolion y Consortia


Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2020-2021

5: Cwricwlwm Gweddnewidiol

Cyf	Her	Gweithredu	Mesurau Cynnydd / Targedau Rhanbarthol 2020-2021	Pwy sy'n gyfrifol	Dyddiad Targed	Cyllid (£)
	<p>baratoi i gynnis Cwricwlwm Trawsnewidiol drwy raglen o ddysgu proffesiynol ar y themâu hyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Arwain newid • Datblygu gweledigaeth gytûn • Creu amser a lle ar gyfer Dysgu Proffesiynol • Cynllunio ar gyfer newid cwricwlwm / dylunio cwricwlwm • Addysgeg arweiniol 	<p><u>Ionawr 2020 - Gorffennaf 2020</u> <u>Cyfnod Ymgysylltu</u></p> <ul style="list-style-type: none"> - Codi ymwybyddiaeth ymarferwyr ysgolion o ganllawiau Cwricwlwm i Gymru a'r cynnig Dysgu Proffesiynol trawsrhanbarthol - Parhau i gynnal cyfarfod tîm llawn i YCG yn fisol er mwyn cefnogi gyda gwneud synnwyr o Cwricwlwm i Gymru a datblygu negeseuon cyson ar draws rhwydweithiau - Adnabod tîm bychan o YCG a datblygu adnoddau cyffredin i gefnogi ymgysylltiad Uwch Arweinwyr mewn clystyrau bach ar draws y rhanbarth. - Parhau i weithio gyda hwyluswyr CiG i gefnogi cydweithio ar draws y continwmm 3-16 oed. 	<p>Mae arweinwyr ysgolion yn ymwybodol o'r cynnig DP rhanbarthol ac yn ei ddeall.</p> <p>Mae pob YCG yn datblygu dealltwriaeth dda o Cwricwlwm i Gymru ac yn mynd ati i ledaenu negeseuon cyson yn y rhwydweithiau.</p> <p>Ar lefel ranbarthol mae rhagor o YCG sydd â gwybodaeth ddyfnach ac sy'n gallu cyfrannu i ddatblygu a darparu'r cynnig DP i gynnwys portffolios diwygiedig, gan ddechrau gyda chefnogi newid a datblygu gweledigaeth.</p> <p>Mae bron bob ysgol yn deall sut i reoli newid ac yn cynllunio ar gyfer hyn ar lefel ysgol gyfan ac ar lefel clwstwr. Mae pob clwstwr wedi adnabod eu</p>	<p>Arweinwyr craidd, trwy fforymau Penaethiaid Sesiynau codi ymwybyddiaeth i hwyluswyr</p> <p>UDA GwE</p> <p>UDA GwE ac YCG Partneriaeth Sgiliau Ranbarthol</p>	<p>Erbyn diwedd tymor y Pasg 2020</p> <p>O Ebrill 2020 ymlaen</p> <p>O Ebrill 2020 ymlaen</p>	<p>Rhanbarthol (RCSIG):</p> <p>Cymorth Consortia Craidd ar gyfer Dylunio a Datblygu'r cwricwlwm newydd</p> <p>Asesu ar gyfer Dysgu (AagD)</p>

Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2020-2021

5: Cwricwlwm Gwednewidiol

Cyf	Her	Gweithredu	Mesurau Cynnydd / Targedau Rhanbarthol 2020-2021	Pwy sy'n gyfrifol	Dyddiad Targed	Cyllid (£)
		<ul style="list-style-type: none"> - Adnabod tîm bychan o YCG a datblygu adnoddau cyffredin i gefnogi ymgysylltiad Arweinwyr Canol ac athrawon mewn clystyrau bach ar draws y rhanbarth. Ffocws ar y themâu a ganlyn: - Ymgysylltu / Gwneud synnwyr o ddogfennaeth y cwricwlwm newydd - Datblygu dealltwriaeth o'r hyn sy'n wahanol - Myfyrio ar addysgeg - o ran arferion presennol a'r dyfodol - Parhau i weithredu'r Prosiect Ymchwil Weithredu Rhanbarthol ar Asesu Ffurfiannol er sicrhau bod sylfeini cadarn mewn lle 	<p>hanghenion DP fel ysgolion unigol a chlystyrau. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn rhan o'r broses o ddatblygu gweledigaeth a rennir i gynnwys y gymuned ehangach a chyflogwyr.</p> <p>Ar lefel ranbarthol mae rhagor o YCG sydd â gwybodaeth ddyfnach ac sy'n gallu cyfrannu i ddatblygu a darparu'r cynnig DP i gynnwys portffolios diwygiedig.</p> <p>Ar lefel ysgol mae rhagor o athrawon o staff cymorth sydd â dealltwriaeth ddyfnach o'r cwricwlwm newydd, dealltwriaeth o'r hyn sy'n wahanol ac sy'n gallu myfyrio yn hyderus ar addysgeg.</p> <p>Defnyddir y 12 egwyddor addysgeg yn gyson ac yn effeithiol yn yr ysgolion sy'n cymryd rhan yn y rhanbarth. Mae gan bob athro sy'n rhan o'r prosiect sgiliau ymchwil effeithiol,</p>	 <p>UDA GwE ac YCG</p>	O Ebrill 2020 ymlaen	

Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2020-2021

5: Cwricwlwm Gweddnewidiol

Cyf	Her	Gweithredu	Mesurau Cynnydd / Targedau Rhanbarthol 2020-2021	Pwy sy'n gyfrifol	Dyddiad Targed	Cyllid (£)
		<p>ar gyfer cynllunio a gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru.</p> <ul style="list-style-type: none"> - Defnyddio gweithdrefnau SA clir i adnabod ysgolion i gefnogi gyda chyflwyno'r themâu hyn o fewn y cynnig DP i UDauA ac Arweinwyr Canol - Parhau i gydweithio â Phrifysgol Bangor ac Ysgolion Ymholi Proffesiynol Arweiniol i ddatblygu rôl ymholi proffesiynol mewn dysgu ac addysgu. - Datblygu ymhellach sianeli cyfathrebu effeithiol er mwyn rhannu datblygiadau cwricwlwm drwy'r wefan, Twitter a G6. - Parhau i gefnogi ysgolion gyda cherrig milltir tymhorol ar G6, 	<p>arbenigedd fel arweinwyr addysgu ac ymwybyddiaeth gref o addysgeg.</p> <p>Ar lefel ranbarthol mae mwy o gapasiti yn y system i sicrhau cymorth a darpariaeth o ran y themâu. Cynnydd yn nifer yr ysgolion a nodir sy'n hyderus o ran darparu'r themâu. Cynnydd yn nifer yr ysgolion sy'n datblygu sgiliau arwain ymholiad ac sy'n gallu rhannu arferion â chlystyrau ehangach.</p> <p>Naratif cryfach o ran rôl Ymholi Proffesiynol yn y cwricwlwm newydd.</p> <p>Proffil cryfach o'r gwaith diwygio ar Twitter, gwefan sy'n cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf ac adnoddau ar G6 sy'n hawdd cael gafael arnynt.</p> <p>Ysgolion sy'n defnyddio G6:</p> <ul style="list-style-type: none"> • 74% (Tachwedd 2018) • 82% (Mehafin 2019) 	<p></p> <p>Uwch Arweinydd GwE: Cwricwlwm i Gymru</p> <p>Tîm o YCG, Prifysgol Bangor</p> <p>Tîm o YCG a'r Tîm Busnes</p> <p>Tîm o YCG</p>	<p>O Ebrill 2020 ymlaen</p> <p>O Ebrill 2020 ymlaen</p> <p>Tymor yr haf 2020</p> <p>Tymhorol</p>	

Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2020-2021

5: Cwricwlwm Gweddnewidiol

Cyf	Her	Gweithredu	Mesurau Cynnydd / Targedau Rhanbarthol 2020-2021	Pwy sy'n gyfrifol	Dyddiad Targed	Cyllid (£)
		<p>yn unol â disgwyliadau'r system.</p> <p><u>Medi 2020 - Gorffennaf 2021</u> <u>Cyfnod dylunio, cynllunio a threialu</u></p> <p>- Parhau gyda rhaglen Dysgu Proffesiynol drawsranbarthol i ymgysylltu ag Uwch Arweinwyr:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ystyried dulliau cydweithredol o gynllunio cwricwlwm 	<ul style="list-style-type: none"> • 96% (Tachwedd 2019) • Targed - 100% (Mehefin 2020) <p><u>Gwybodaeth ac ymwybyddiaeth</u> - rhannol ar drac neu well:</p> <ul style="list-style-type: none"> • 77% (Tachwedd 2018) • 82% (Mehefin 2019) • 91% (Tachwedd 2019) • Targed - 91% (Mehefin 2020) <p><u>Ymgysylltu a chymryd rhan</u> - rhannol ar drac neu well:</p> <ul style="list-style-type: none"> • 69% (Tachwedd 2018) • 76% (Mehefin 2019) • 96% (Tachwedd 2019) • Targed - 100% (Mehefin 2020) <p>Ar lefel ranbarthol mae rhagor o YCG sydd â gwybodaeth ddyfnach ac sy'n gallu cyfrannu i ddatblygu a darparu'r cynnig DP.</p> <p>Ar lefel ysgol mae nifer cynyddol o arweinwyr ysgolion yn deall y model cwricwlwm ac asesu ac sy'n ystyried pa ddulliau i'w profi a'u harfarnu yng nghyd-destun eu hysgol.</p>	<p>Tîm o YCG gydag ysgolion penodol.</p>	<p>Medi 2020 ymlaen</p>	

Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2020-2021

5: Cwricwlwm Gweddnewidiol

<i>Cyf</i>	<i>Her</i>	<i>Gweithredu</i>	<i>Mesurau Cynnydd / Targedau Rhanbarthol 2020-2021</i>	<i>Pwy sy'n gyfrifol</i>	<i>Dyddiad Targed</i>	<i>Cyllid (£)</i>
		<p>(dulliau disgyblaethol, rhyngddisgyblaethol ac integredig)</p> <p>- Parhau gyda rhaglen Dysgu Proffesiynol drawsranbarthol i ymgysylltu ag Arweinwyr Canol ac athrawon:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynllunio tymor hir a thymor canolig (MDaPh) • Dilyniant • Cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd • Dulliau disgyblaethol, rhyngddisgyblaethol ac integredig • Cysylltiadau o fewn ac ar draws MDaPh • Cynnwys addysgegol (MDaPh / penodol i ddisgyblaeth) • Aseu 	<p>Ar lefel ranbarthol mae gan nifer cynyddol o YCG wybodaeth ddyfnach, sy'n gallu cyfrannu i ddatblygu a darparu'r cynnig DP.</p> <p>Ar lefel ysgol mae nifer cynyddol o ymarferwyr ysgolion yn deall y model cwricwlwm a'r modelau asesu, gan gynnwys dilyniant.</p>	<p>Tîm o YCG gydag ysgolion penodol</p>	<p>Medi 2020 ymlaen</p>	

Cynllun Busnes Lefel 1 GwE 2020-2021

6: BUSNES

Blaenoriaethau gwella:

6.1 Cynnal adolygiad o'r gyllideb a'r gweithlu

6: Busnes

Cyf	Her	Gweithredu	Mesurau Cynnydd / Targedau Rhanbarthol 2020-2021	Pwy sy'n gyfrifol	Dyddiad Targed	Cyllid (£)
6.1	Cynnal adolygiad o'r gyllideb a'r gweithlu	<p>Adolygu'r cynllun ariannol tymor canolig a gofalu y cynhelir lefelau uchel o ddirprwyo i ysgolion.</p> <p>Cynnal archwiliad o bortffolio a chyfrifoldebau staff presennol.</p> <p>Adolygu'r strwythur staffio presennol.</p>	<p>Mae'r cynllun ariannol tymor canolig yn mynd i'r afael â'r heriau y bydd angen i'r gwasanaeth roi sylw iddynt.</p> <p>Bydd strwythur staffio newydd mewn gwell sefyllfa i ddarparu'r gwasanaeth o fewn y cyfyngiadau ariannol.</p>	Rheolwr Gyfarwyddwr GwE / Rheolwr Busnes	Medi 2021	Craidd / Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol (RCSIG)

